OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2349 (Cy. 246)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Rhuthun, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Medi 2011* |
| *Yn dod i rym* | *3 Hydref 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Hydref 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Rhuthun, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00.01 o'r gloch ar 3 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o Gefnffordd yr A494 Dolgellau - Man i'r De o Benbedw, yn Rhuthun yn Sir Ddinbych, sy'n ymestyn o bwynt wrth yr arwydd terfyn cyflymder 60 mya, 275 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt mynedfa Ysgol Rhuthun, i ganolbwynt Cylchfan Stryd Mwrog.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.